# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1Teithio a Thwristiaeth

## Manyleb Ddrafft

I'w haddysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026.

DRAFFT

# Gwybodaeth am y Cymhwyster

| | |
|---|---|
| Teitl y cymhwyster | CBAC Lefel Mynediad / Lefel 1 Sylfaen Teithio a Thwristiaeth |
| Amcanion y cymhwyster | Cyflwyno dysgwyr i sectorau galwedigaethol trwy brofiadau dysgu hygyrch, ymarferol sy'n datblygu sgiliau sylfaenol, yn cefnogi datblygiad personol, ac yn galluogi symud ymlaen i addysg a hyfforddiant pellach. |
| Cod Cymhwyster CBAC | |
| Rhif QiW | |
| Grwpiau oedran cymeradwy | 14-16, 16-19, 19+ |
| Addysgu am y tro cyntaf | Medi 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2029 |

| Fersiwn | Disgrifiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |
| Gall ein manylebau newid dros amser. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser. | | |

DRAFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw Gymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Rydym yn darparu amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy’n hygyrch, deniadol, ac wedi’u cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy’n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw’r unig gorff dyfarnu sy’n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o’r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae’n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Sylfaen gref i lwyddo yn y dyfodol

Mae ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith wedi'u llunio i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy’n hygyrch, deniadol, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn. Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a chyflawni llwyddiant ystyrlon.

Un o nodweddion allweddol ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yw eu strwythur unedol gan ganiatáu i ddysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac asesiadau eraill ym Mlwyddyn 11. Mae'r dull fesul cam hwn yn cynnig cyflymder dysgu hylaw, yn lleihau pwysau asesu, ac yn cefnogi cynnydd cyson, ystyrlon.

Mae ein dull hyblyg o asesu yn grymuso athrawon i greu gweithgareddau asesu ystyrlon, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr tra’n sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd teg a phriodol i ddangos eu cyflawniadau. Mae'r cyfuniad o feini prawf asesu wedi'u diffinio'n glir a’r dyluniad tasgau hyblyg yn hyrwyddo profiadau dysgu pwrpasol sy'n cefnogi cynnydd, yn dathlu cryfderau unigol, ac yn adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Mae ein dull graddio cydadferol yn cydnabod y gall dysgwyr berfformio'n wahanol ar draws y cymhwyster. Mae ein dull o weithredu yn galluogi perfformiad cryfach mewn un maes i wrthbwyso perfformiad is mewn maes arall, gan gyfrannu at brofiad asesu tecach a mwy cefnogol.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, sy'n cymell ac sydd wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau ôl-16.

P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddant yn ennill gwybodaeth a sgiliau ymarferol, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ....6
1.1. Pwrpas a nodau ....6
1.2. Cwricwlwm i Gymru ....7
1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant ....8
1.4. Oriau dysgu dan arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso ....8
1.5. Y defnydd o iaith ....8
1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg ....9
2. Unedau ....10
2.1. Fformat yr unedau ....10
2.2. Bonion deilliannau dysgu ....11
2.3. Cynnwys ....11
2.4. Tasgau Asesu ....11
Uned 1 Archwilio teithio a thwristiaeth yng Nghymru ....12
Uned 2 Dylunio atyniad i dwristiaid i Gymru ....25
3. Asesu ....39
3.1. Tasgau asesu ....39
3.2. Hyd yr asesiad ....39
3.3. Gofynion tystiolaeth ....40
3.4. Cymorth ac arweiniad ....41
3.5. Goruchwylio a dilysu ....41
3.6. Marcio (dyfarniadau asesu) ....41
3.7. Ailgyflwyno tystiolaeth cyn cymedroli ....42
3.8. Camymddwyn ....43
4. Gwybodaeth dechnegol ....44
4.1. Cofrestru ar gyfer unedau ....44
4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ....44
4.3. Graddio ac adrodd yn ôl ....45
4.4. Ailsefyll asesiadau ar ôl cymedroli allanol ....46
4.5. Ailwneud y cymhwyster ....46
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ....47


DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Crynodeb o'r asesu

| Uned 1: Archwilio teithio a thwristiaeth yng Nghymru<br>Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y Ganolfan |
| --- |
| Portffolio o dystiolaeth – uchafswm amser asesu o 12 awr<br>Wedi'i asesu yn y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC |
| Uned 2: Dylunio atyniad i dwristiaid i Gymru<br>Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan |
| Portffolio o dystiolaeth – uchafswm amser asesu o 18 awr<br>Wedi'i asesu yn y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Mae Uned 1 yn uned ragarweiniol y dylid ei haddysgu gyntaf.

Bydd Uned 1 ar gael o haf 2028, a bydd Uned 2 ar gael yn haf 2029.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas a nodau

Mae Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith CBAC wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan ddarparu profiadau dysgu perthnasol ac ystyrlon sy'n adlewyrchu eu cam datblygiad. Mae'r cymwysterau wedi'u gwreiddio'n gadarn yng nghyd-destun Cymru ac economi Cymru, gan sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â chynnwys sy'n ddilys yn lleol ac yn arwyddocaol yn genedlaethol.

Mae Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cynnig cynnwys ac asesu deniadol a hygyrch sy'n cefnogi datblygu sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r cymwysterau hyn yn cyfrannu at wireddu ei bedwar diben a'i egwyddorion cynnydd, gan helpu dysgwyr i fod yn uchelgeisiol, yn alluog ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Yn ogystal, mae Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau i astudiaethau ôl-16, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf mewn addysg neu hyfforddiant.

Nod y Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith mewn Teithio a Thwristiaeth yw cefnogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- hybu dealltwriaeth o'r diwydiant teithio a thwristiaeth, gan gynnwys y sectorau a'u swyddogaethau a'u rolau swydd
- ymgorffori gwybodaeth hanfodol am gyrchfannau yng Nghymru, eu nodweddion a rhesymau twristiaid dros deithio
- meithrin dealltwriaeth o effaith teithio a thwristiaeth ac arferion cynaliadwy ar gyfer y dyfodol
- datblygu sgiliau ymarferol sy'n berthnasol i deithio a thwristiaeth gan gynnwys ymchwil, cynhyrchu syniadau, cyfathrebu ac adolygu
- datblygu galluoedd datrys problemau a chynllunio drwy ddyluniad atyniadau, deall a gwybod sut i fodloni anghenion ymwelwyr, deall adborth a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwella
- meithrin sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy megis cynllunio a threfnu, bodloni anghenion ymwelwyr a chyfathrebu o fewn cyd-destun teithio a thwristiaeth
- paratoi dysgwyr ar gyfer symud ymlaen i astudiaeth bellach, prentisiaethau, neu gyflogaeth yn y diwydiant teithio a thwristiaeth.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 1.2. Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â GwaithTeithio a Thwristiaeth hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i'r dyluniad hwn y mae'r egwyddorion cynnydd[1], ynghyd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[2] ym Maes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd yn Adran 2.3; Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith  Teithio a Thwristiaeth yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- gefnogi datganiadau o'r hyn sy'n bwysig Y Dyniaethau, gan roi cyfle i ddysgwyr:
    - feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i deithio a thwristiaeth, a'u cymhwysiad yng Nghymru
    - casglu a defnyddio gwybodaeth i lywio eu dealltwriaeth o'r byd ymhellach
    - dysgu sut y gall amrywiol fydolygon a ffactorau ddylanwadu ar eu canfyddiadau nhw eu hunain a rhai pobl eraill o gyrchfannau i dwristiaid ac effaith teithio a thwristiaeth
    - nodi beth sy'n gwneud lleoedd neu gyrchfannau a mannau'n wahanol i'w gilydd
    - datblygu ymwybyddiaeth o ryngberthnasoedd rhwng gweithredoedd dynol a'r byd naturiol
    - meithrin eu hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn trwy ddod i gysylltiad â stori eu hardal, Cymru a'r byd ehangach
    - gwerthfawrogi sut mae esblygiad lleoedd neu gyrchfannau yn cael ei sbarduno gan y rhyngweithio sydd rhwng ystod o ffactorau, gan gynnwys rhai amgylcheddol, economaidd, gweithredoedd a chredoau pobl
    - cynyddu eu hymwybyddiaeth o sut mae cynaliadwyedd ein byd yn y dyfodol a newid hinsawdd yn cael eu dylanwadu gan effaith gweithredoedd dynol
    - datblygu fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus a moesegol sy'n adfyfyrio ar eu credoau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain ac eraill.

- cefnogi egwyddorion cynnydd y Dyniaethau drwy annog dysgwyr i:
    - ddangos mwy o annibyniaeth wrth ddod o hyd i wybodaeth addas
    - trefnu a chreu cysylltau rhwng gwybodaeth
    - cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol ym maes teithio a thwristiaeth
    - archwilio'r byd o'u cwmpas i feithrin dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain yn y byd
    - fframio cwestiynau a defnyddio tystiolaeth i lunio ateb
    - dangos gallu cynyddol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau newydd, a chynyddol anghyfarwydd, drwy dasgau ymarferol.

[1] Cwricwlwm i Gymru – Hwb
[2] Cwricwlwm i Gymru – Hwb

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofyniad ffurfiol am ddysgu blaenorol, mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio'n bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, sy'n gweithio ar lefel mynediad Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Mae'n adeiladu ar sgiliau a dealltwriaeth sylfaenol a ddatblygwyd trwy brofiadau dysgu cynharach, fel arfer rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau hanfodol ac i fagu hyder, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer dysgu yn y dyfodol a bywyd pob dydd. Mae hefyd yn paratoi dysgwyr i symud ymlaen i astudiaethau pellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth. Mae cynnwys Llwyddiant Lefel 1 yn cydnabod lefelau uwch o gyflawniad ac yn darparu llwybr clir i gymwysterau Lefel 1/2, gan gynnwys TAAU Teithio a Thwristiaeth, ac yn cefnogi dilyniant parhaus a dyheadau dysgwyr. Yn ogystal, mae'r cymhwyster yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4. Oriau dysgu dan arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso

Lluniwyd Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Teithio a Thwristiaeth i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae swm y cynnwys ym mhob uned yn rhoi syniad o'r ODA y bydd eu hangen ar gyfer pob uned.

| | ODA |
|---|---|
| Uned 1 | 48 |
| Uned 2 | 72 |
| **Cyfansymiau** | **120 awr** |

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Gan fod Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr lefel mynediad cyn-16, bwriedir i'r holl ddysgu ac asesu o fewn y cymhwyster fod dan arweiniad. Yn unol â hynny, cyfanswm amser cymhwyso'r cymhwyster hwn yw 120 awr.

## 1.5. Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Bydd y derminoleg yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau ei bod yn adlewyrchu hunaniaethau unigol ac yn meithrin parch a chywirdeb. Bydd yr iaith a ddefnyddir mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i wneud diwygiadau pellach lle bo'n briodol i sicrhau ei bod yn cynrychioli ac yn cefnogi pob unigolyn yn gywir. Byddwn yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'i rywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion cynllunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy'r cymhwyster, gan gynnwys defnyddio fformatau asesu amrywiol, iaith glir a diduedd, ac enghreifftiau amrywiol sy'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sector Teithio a Thwristiaeth. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle y bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid gofynion bwriadedig yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael yn www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 2. Unedau

## 2.1. Fformat yr unedau

| | |
|---|---|
| ODA | Mae'n nodi'r nifer amcangyfrifedig o oriau y bydd dysgwr yn ei dreulio o dan oruchwyliaeth neu arweiniad uniongyrchol i gwblhau'r uned. Mae hyn yn cynnwys addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau ymarferol, ac astudio dan oruchwyliaeth. |
| Trosolwg o'r uned | Mae'n darparu crynodeb cryno o bwrpas, cwmpas a pherthnasedd yr uned. Mae'n amlinellu'r themâu, y sgiliau a'r meysydd gwybodaeth allweddol a gwmpesir, a sut mae'r uned yn cefnogi dilyniant yn y maes galwedigaethol. |
| Deilliannau Dysgu | Mae'n rhestru'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth benodol y disgwylir i ddysgwyr eu dangos ar ôl cwblhau'r uned yn llwyddiannus. |
| Crynodeb o'r asesu | Mae'n crynhoi'r dull asesu ar gyfer yr uned.<br>Mae'r adran hon hefyd yn nodi faint o amser y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau asesiadau. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Mae'n cynnwys manylion y deunyddiau, yr offer, y cyfleusterau a'r staffio y mae eu hangen i gynnal yr asesiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch wrth gyflwyno'r cymhwyster ar draws canolfannau. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Mae'n nodi cysylltiadau ag unedau neu gymwysterau eraill a gynigir gan CBAC, gan gynnwys llwybrau dilyniant a/neu gyfleoedd ar gyfer cyflwyno integredig. |
| Cynnwys | Mae'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr i fodloni'r meini prawf asesu. |
| Meini prawf asesu | Mae'n darparu meini prawf penodol, arsylwadwy, a mesuradwy y mae'n rhaid i ddysgwyr eu bodloni er mwyn dangos eu bod wedi cyflawni'r deilliant dysgu. Darperir pedwar band gwahanol o feini prawf asesu, sy'n adlewyrchu lefelau gwahanol o allu dysgwyr. |
| Tasgau enghreifftiol | Mae'n darparu amrywiaeth o dasgau addas ar gyfer pob lefel o feini prawf asesu. Nid yw'r tasgau hyn yn orfodol. Dylai athrawon sicrhau bod tasgau a gweithgareddau asesu yn addas ar gyfer anghenion a galluoedd pob grŵp o ddysgwyr. |
| Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu | Mae'n tynnu sylw at brofiadau dysgu a allai gael eu cynhyrchu trwy gyflwyno'r uned. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y canllawiau addysgu.<br>Ni fydd profiadau'n cael eu hasesu'n uniongyrchol. |

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 2.2. Bonion deilliannau dysgu

Yng Nghymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith CBAC, defnyddir bonion deilliannau dysgu i nodi dyfnder a math y dysgu a ddisgwylir.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn gwybod' pan ddisgwylir i ddysgwyr alw i gof ffeithiau syml neu adnabod gwybodaeth allweddol.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn deall' pan fydd angen i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud synnwyr o gysyniadau sylfaenol a'u cymhwyso mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, â chymorth.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn gallu' pan ddisgwylir i ddysgwyr gyflawni tasgau ymarferol syml, dilyn cyfarwyddiadau, neu ddangos technegau sylfaenol.

Mae'r bonion hyn yn sicrhau bod deilliannau'n hygyrch, yn gyraeddadwy, ac yn briodol i ddysgwyr sylfaen sy'n datblygu hyder mewn meysydd galwedigaethol.

## 2.3. Cynnwys

Darperir cynnwys ar gyfer pob deilliant dysgu, sy'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn iddyn nhw fodloni'r meini prawf asesu.

Rhaid cyflwyno'r holl gynnwys oni nodir fel arall:

- mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn golygu bod y cynnwys dan sylw yn orfodol ac y gallai gael ei asesu. Gall canolfannau hefyd ddewis ymgorffori cynnwys neu enghreifftiau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a restrir
- mae'r defnydd o'r geiriau 'er enghraifft', 'fel' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid defnyddio enghreifftiau eraill.

## 2.4. Tasgau Asesu

Darperir tasgau asesu enghreifftiol ar ddiwedd pob uned ynghyd ag unrhyw ofynion adnoddau penodol. Mae'r tasgau hyn wedi'u cynllunio i gydbwyso hydrinedd, diddordeb dysgwyr, dibynadwyedd a dilysrwydd.

Gall canolfannau ddewis defnyddio'r tasgau hyn fel y maent wedi'u cyflwyno, eu haddasu neu ddatblygu dewisiadau amgen eu hunain. Rhaid i unrhyw dasgau a ddyfeisiwyd gan y ganolfan alluogi dysgwyr i fodloni'r holl feini prawf asesu cysylltiedig.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Uned 1 Archwilio teithio a thwristiaeth yng Nghymru

| | |
|---|---|
| ODA | 48 |
| Trosolwg o'r uned | Mae Teithio a Thwristiaeth yn ddiwydiant deinamig a ffyniannus yng Nghymru ac yn fyd-eang, sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth amrywiol ac yn cyfrannu'n sylweddol at gymunedau wrth hybu dealltwriaeth rhwng cymunedau a diwylliannau gwahanol.<br>Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i'r diwydiant teithio a thwristiaeth yng Nghymru yn bennaf. Ei nod yw meithrin gwybodaeth am strwythurau'r sector a chyfleoedd cyflogaeth ochr yn ochr â gwybodaeth am gyrchfannau, rhesymau dros deithio ac effeithiau teithio a thwristiaeth. Mae'r uned yn darparu sylfaen wybodaeth hanfodol sy'n sail i'r cynnwys a'r gwaith ymarferol yn yr unedau sy'n weddill.<br><br>Mae'n cefnogi llwybrau i astudiaeth bellach, prentisiaethau a chyflogaeth drwy feithrin:<br>• gwybodaeth am ystyr teithio a thwristiaeth<br>• gwybodaeth am sectorau allweddol y diwydiant<br>• gwybodaeth am gyrchfannau, eu hatyniadau a rhesymau dros deithio<br>• meithrin dealltwriaeth o effeithiau teithio a thwristiaeth a syniadau ar gyfer y dyfodol yng Nghymru<br>• gwybodaeth am rolau swydd ym maes teithio a thwristiaeth<br><br>Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon wedi'u paratoi ar gyfer astudiaeth bellach neu rolau lefel mynediad mewn teithio a thwristiaeth, gyda sylfaen gref mewn gwybodaeth am y diwydiant. |
| Deilliannau Dysgu | Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:<br>DD1.1 – Gwybod beth yw ystyr teithio a thwristiaeth<br>DD1.2 – Gwybod am sectorau allweddol y diwydiant teithio a thwristiaeth<br>DD1.3 – Gwybod am gyrchfannau, eu hatyniadau a rhesymau dros deithio<br>DD1.4 – Deall effeithiau teithio a thwristiaeth a syniadau ar gyfer y dyfodol yng Nghymru<br>DD1.5 – Gwybod am y gwahanol swyddi yn y diwydiant teithio a thwristiaeth |
| Crynodeb o'r asesu | Bydd asesu ar gyfer yr uned hon yn cael ei gynnal trwy weithgareddau a osodir gan yr athro/athrawes sy'n galluogi dysgwyr i ddangos yr hyn y maent wedi'i ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a hygyrch<br><br>Er mwyn cyflawni pob deilliant dysgu, rhaid i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf asesu. Mae gweithgareddau a thystiolaeth a awgrymir wedi'u cynnwys ar ôl yr uned.<br><br>Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw gweithgareddau asesu yn hirach na'r uchafswm hyd o 12 awr. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd yr asesu fel arfer o fewn yr amrediad dangosol o 9-12 awr, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gorasesu.<br><br>Rhaid i ganolfannau gofnodi'r amser bras y mae pob dysgwr yn ei dreulio ar weithgareddau asesu at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesiad. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn yr unedau Sgiliau Bywyd a Gwaith canlynol:<br>Sgiliau Bywyd: Cyfranogiad Cymunedol<br>Sgiliau Bywyd: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>Sgiliau Bywyd: Dewisiadau Moesegol<br>Sgiliau Bywyd: Ffydd a Chredo yn y Gymuned<br>Sgiliau Bywyd: Sgiliau yn yr Amgylchedd Naturiol<br>Sgiliau Bywyd: Cynaliadwyedd ar Waith<br>Sgiliau Bywyd: Deall yr Hunan ac Eraill<br>Sgiliau Bywyd: Gwerthoedd Bywyd<br><br>Sgiliau Gwaith: Datblygu Economaidd Cynaliadwy<br>Sgiliau Gwaith: Creadigrwydd Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Swyddi ar gyfer y Dyfodol<br>Sgiliau Gwaith: Cynllunio Datblygiad Personol<br>Sgiliau Gwaith: Hawliau a Chyfrifoldebau yn y Gweithle |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cynnwys

| **Deilliant dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| DD1.1<br>Gwybod beth yw ystyr teithio a thwristiaeth | Mae Teithio yn cyfeirio at bobl yn symud o un lle i'r llall, yn aml at ddibenion hamdden, busnes, neu ddibenion eraill.<br><br>Mae Twristiaeth yn ymwneud â phobl yn teithio i leoedd ac yn aros ynddynt y tu allan i'w hamgylchedd arferol am lai nag un flwyddyn yn ddilynol at ddibenion hamdden, busnes, neu ddibenion eraill.<br><br>Rhesymau dros deithio (er enghraifft, mynd ar wyliau, ymweld â theulu neu ffrindiau mewn tref neu wlad arall, taith addysgol neu deithio ar gyfer gwaith neu gyfarfodydd).<br><br>Enghreifftiau o weithgareddau twristiaeth (er enghraifft, mynd i weld atyniadau, cymryd rhan mewn gweithgareddau antur, aros dros nos mewn llety, bwyta allan mewn bwytai neu gaffis, crwydro tirnodau diwylliannol neu hanesyddol, mynychu digwyddiadau chwaraeon neu wyliau, ymweld â sba neu enciliadau lles). |
| DD1.2<br>Gwybod am sectorau allweddol y diwydiant teithio a thwristiaeth | Prif sectorau'r diwydiant teithio a thwristiaeth byd-eang gan gynnwys:<br>• Llety – ble mae ymwelwyr yn aros (er enghraifft, gwestai, tai llety, meysydd gwersylla, carafanau, hosteli)<br>• Digwyddiadau – gweithgareddau wedi'u trefnu sy'n denu ymwelwyr ac yn cyfrannu at dwristiaeth (er enghraifft gwyliau, cyngherddau, digwyddiadau chwaraeon, arddangosfeydd, cynadleddau, dathliadau lleol)<br>• Trafnidiaeth – sut mae ymwelwyr yn teithio i gyrchfannau ac oddi yno (ffyrdd, rheilffyrdd, awyr, môr)<br>• Gwasanaethau teithio – sefydliadau sy'n helpu pobl i gynllunio ac archebu teithio (er enghraifft, asiantaethau teithio, cwmnïau teithiau, canolfannau gwybodaeth i ymwelwyr)<br>• Atyniadau i ymwelwyr – lleoedd y mae pobl yn ymweld â nhw er mwynhad neu ddiddordeb (er enghraifft, cestyll, traethau, sŵau, parciau cenedlaethol, amgueddfeydd, parciau thema). |
| DD1.3<br>Gwybod am gyrchfannau, eu hatyniadau a rhesymau dros deithio | Beth yw cyrchfan? – Ardal sy'n cynnig amrywiaeth o atyniadau i bobl ymweld â nhw<br><br>Enghreifftiau o gyrchfannau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:<br>• lleol – fel sy'n berthnasol i ganolfannau a dysgwyr<br>• cenedlaethol – megis Caerdydd, Dinbych-y-pysgod, Wrecsam, Eryri |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| | • rhyngwladol – megis Llundain, Paris, Barcelona, Efrog Newydd.<br><br>Nodweddion cyrchfannau sy'n denu twristiaid i Gymru, gan gynnwys:<br>• Atyniadau naturiol – er enghraifft traethau (Pen Llŷn), mynyddoedd (Bannau Brycheiniog), coedwigoedd (Coedwig Hafren), cefn gwlad (Dyffryn Gwy), parciau cenedlaethol (Arfordir Sir Benfro), llwybrau cerdded (Llwybr Cwm Elan).<br>• Atyniadau adeiledig – er enghraifft: Stadiymau (Stadiwm Principality), amgueddfeydd (Amgueddfa Genedlaethol Cymru), cestyll (Caernarfon), parciau antur (ZipWorld, Heatherton World of Activities).<br>• Atyniadau diwylliannol – er enghraifft bwyd (cacennau cri), cerddoriaeth (Eisteddfod Genedlaethol/ Gŵyl In it together a Focus Wales), y Gymraeg (Eisteddfod Genedlaethol, Gŵyl Gymraeg Tafwyl), digwyddiadau (Ironman Cymru).<br><br>Rhesymau dros deithio gan gynnwys:<br>• antur<br>• addysg neu astudio<br>• iechyd neu lesiant<br>• hamdden neu wyliau<br>• ymweld â ffrindiau a'r teulu<br>• gwaith neu fusnes.<br><br>Beth sy'n gwneud Cymru'n gyrchfan boblogaidd a pham mae'n cael ei dewis dros gyrchfannau eraill, er enghraifft:<br>• cost a hygyrchedd<br>• harddwch naturiol<br>• gwyliau gartref<br>• Diwylliant Cymru. |
| DD1.4<br>Deall effeithiau teithio a thwristiaeth a syniadau ar gyfer y dyfodol yng Nghymru | Mae effeithiau teithio a thwristiaeth i'w gweld yng Nghymru ac yn fyd-eang:<br>• pobl, lleoedd a'r amgylchedd.<br><br>Effeithiau cadarnhaol yng Nghymru gan gynnwys:<br>• mae'n creu swyddi ac yn cefnogi economïau lleol (er enghraifft swyddi twristiaeth mewn cyrchfannau megis Pen Llŷn, Caerdydd ac Eryri)<br>• mae'n gwella gwasanaethau a thrafnidiaeth (er enghraifft parciau cenedlaethol yng Nghymru, cyfleusterau llwybr arfordir Sir Benfro ar gyfer cerddwyr a beicwyr, trwydded fforio Trafnidiaeth Cymru, taith cwch i Ynys Byr)<br>• mae'n diogelu treftadaeth a diwylliant (er enghraifft cyllid ar gyfer safleoedd Cadw).<br><br>Effeithiau negyddol yng Nghymru gan gynnwys:<br>• sbwriel a llygredd (er enghraifft ardaloedd arfordirol a pharciau cenedlaethol yn gweld cynnydd mewn gwastraff ar lwybrau cerdded ac ar gopaon |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | mynyddoedd/sbwriel a llygredd ar draethau/digwyddiadau twristiaeth)<br>• colli diwylliant (er enghraifft twf mewn gwestai cadwyn a gosod cartrefi gwyliau, cynnydd mewn siopau manwerthu i dwristiaid ar draul siopau traddodiadol, llai o ddefnydd o'r Gymraeg oherwydd blaenoriaethu Saesneg i dwristiaid)<br>• gorlenwi (er enghraifft Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Penrhyn Gŵyr yn ystod y tymhorau brig, Dinbych-y-pysgod gyda strydoedd cul a niferoedd uchel o ymwelwyr)<br>• swyddi tymhorol neu gyflog isel (er enghraifft cyrchfannau glan-y-môr, parciau gwyliau, gwestai, caffis, atyniadau).<br><br>Syniadau ar gyfer dyfodol teithio a thwristiaeth yng Nghymru gan gynnwys:<br>• ffyrdd y gall teithio a thwristiaeth helpu pobl, lleoedd a natur yng Nghymru (er enghraifft eco-lwybrau, llwybrau beiciau a bysiau, mentrau ailgylchu, llwybrau cerdded hygyrch)<br>• technoleg i wneud twristiaeth yn haws ac yn gynaliadwy (er enghraifft teithiau rhithiol, e-docynnau, codau QR, apiau teithio a'r potensial i ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn y diwydiant). |
| DD1.5<br>Gwybod am y gwahanol swyddi yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | Swydditeithio a thwristiaeth, er enghraifft:<br>• cynorthwyydd cofrestru teithwyr maes awyr<br>• criw caban<br>• cynrychiolydd gwyliau<br>• croesawydd gwesty<br>• person cadw tŷ<br>• tywysydd amgueddfa<br>• gwasanaethydd parc thema<br>• tywysydd teithiau<br>• gweithwyr trafnidiaeth<br>• asiant teithio<br>• gweinydd / gweinyddes.<br><br>Dyletswyddau a chyfrifoldebau, er enghraifft:<br>• sicrhau diogelwch<br>• helpu cwsmeriaid<br>• darparu gwybodaeth<br>• cymryd bwciadau.<br><br>Sgiliau a rhinweddau sydd eu hangen, er enghraifft:<br>• cyfathrebu<br>• trefnu<br>• datrys problemau<br>• gwaith tîm. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| **Deilliant dysgu – bydd y dysgwr yn** | **Meini prawf asesu – gall y dysgwr** | | | | **Pwyntiau a roddwyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 Gyda lefel uchel o gymorth (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gymorth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 Gyda lefel finimol o gymorth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 Yn annibynnol: (4 pwynt)** | |
| DD1.1 Gwybod beth yw ystyr teithio a thwristiaeth | 1.1.1 Enwi un enghraifft o deithio | 1.1.1 Rhestru o leiaf ddwy enghraifft wahanol o deithio | 1.1.1 Nodi beth yw ystyr teithio, gan roi o leiaf un enghraifft ac un rheswm dros deithio | 1.1.1 Rhoi diffiniad o ystyr teithio gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol a rhesymau dros deithio | /4 |
| | 1.1.2 Enwi un enghraifft o weithgaredd twristiaeth | 1.1.2 Rhestru o leiaf ddwy enghraifft wahanol o weithgareddau twristiaeth | 1.1.2 Nodi beth yw ystyr twristiaeth, gan roi o leiaf un enghraifft | 1.1.2 Rhoi diffiniad o ystyr twristiaeth gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol | /4 |
| DD1.2 Gwybod am sectorau allweddol y diwydiant teithio a thwristiaeth | 1.2.1 Enwi un sector allweddol ym maes teithio a thwristiaeth | 1.2.1 Rhestru dau sector allweddol ym maes teithio a thwristiaeth | 1.2.1 Nodi'r sectorau allweddol ym maes teithio a thwristiaeth | 1.2.1 Amlinellu'r sectorau allweddol a rhoi enghreifftiau ar gyfer pob un | /4 |
| | 1.2.2 Enwi un math o le neu wasanaeth o fewn sector | 1.2.2 Rhestru mathau o leoedd neu wasanaethau o ddau sector gwahanol | 1.2.2 Nodi beth mae'r sectorau allweddol yn ei gynnig neu'n ei ddarparu i ymwelwyr | 1.2.2 Amlinellu'r hyn y mae'r sectorau allweddol yn ei gynnig neu'n ei ddarparu i ymwelwyr gydag enghreifftiau | /4 |
| DD1.3 Gwybod am gyrchfannau, eu hatyniadau a | 1.3.1 Nodi cyrchfan y mae pobl yn ymweld â hi ar gyfer teithio a | 1.3.1 Labelu o leiaf ddwy gyrchfan y mae pobl yn ymweld â nhw gan | 1.3.1 Labelu cyrchfan leol a chenedlaethol neu ryngwladol y mae pobl yn ymweld â nhw | 1.3.1 Labelu cyrchfannau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| rhesymau dros deithio | thwristiaeth gan ddefnyddio lluniau neu fapiau | ddefnyddio lluniau neu fapiau | gan ddefnyddio lluniau neu fapiau | gan ddefnyddio lluniau neu fapiau | |
| | 1.3.2<br>Enwi un atyniad cyrchfan y mae pobl yn hoffi ymweld â hi yng Nghymru | 1.3.2<br>Rhestru o leiaf ddau atyniad cyrchfan y mae pobl yn hoffi ymweld â hi yng Nghymru | 1.3.2<br>Nodi un atyniad naturiol, un atyniad adeiledig ac un atyniad diwylliannol o leiaf un gyrchfan y mae pobl yn hoffi ymweld â hi yng Nghymru | 1.3.2<br>Amlinellu atyniadau naturiol, adeiledig a diwylliannol cyrchfannau y mae pobl yn hoffi ymweld â nhw yng Nghymru | /4 |
| | 1.3.3<br>Enwi un rheswm pam mae pobl yn teithio i Gymru | 1.3.3<br>Rhestru o leiaf ddau reswm pam mae pobl yn teithio i Gymru | 1.3.3<br>Nodi rhesymau gwahanol pam mae pobl yn teithio i gyrchfan a enwir yng Nghymru | 1.3.3<br>Amlinellu rhesymau gwahanol pam mae pobl yn teithio gan ddefnyddio cyrchfan a enwir yng Nghymru a chyrchfan ryngwladol a enwir | /4 |
| DD1.4<br>Deall effeithiau teithio a thwristiaeth a syniadau ar gyfer y dyfodol yng Nghymru | 1.4.1<br>Dewis effaith gadarnhaol teithio a thwristiaeth yng Nghymru | 1.4.1<br>Awgrymu o leiaf ddwy effaith gadarnhaol teithio a thwristiaeth yng Nghymru | 1.4.1<br>Disgrifio amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol teithio a thwristiaeth yng Nghymru gan ddefnyddio enghraifft | 1.4.1<br>Esbonio amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol teithio a thwristiaeth a'u heffeithiau gan ddefnyddio enghreifftiau o Gymru | /4 |
| | 1.4.2<br>Dewis effaith negyddol teithio a thwristiaeth yng Nghymru | 1.4.2<br>Awgrymu o leiaf ddwy effaith negyddol teithio a thwristiaeth yng Nghymru | 1.4.2<br>Disgrifio amrywiaeth o effeithiau negyddol teithio a thwristiaeth yng Nghymru gan ddefnyddio enghraifft | 1.4.2<br>Esbonio amrywiaeth o effeithiau negyddol teithio a thwristiaeth a'u heffeithiau gan ddefnyddio enghreifftiau o Gymru | /4 |
| | 1.4.3<br>Dewis un syniad ar gyfer sut y gallai teithio | 1.4.3<br>Awgrymu o leiaf ddau syniad ar gyfer sut y gallai teithio a | 1.4.3<br>Disgrifio syniadau ar gyfer sut y gallai teithio a thwristiaeth | 1.4.3<br>Esbonio syniadau ar gyfer sut y gallai teithio a thwristiaeth wella yn y dyfodol yng | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | a thwristiaeth wella yn y dyfodol yng Nghymru | thwristiaeth wella yn y dyfodol yng Nghymru | wella yn y dyfodol yng Nghymru | Nghymru, gan gynnwys sut y gall technoleg wneud twristiaeth yn haws ac yn fwy cynaliadwy | |
| DD1.5<br>Gwybod am y gwahanol swyddi yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | 1.5.1<br>Enwi un swydd ym maes teithio a thwristiaeth | 1.5.1<br>Rhestru o leiaf ddwy swydd ym maes teithio a thwristiaeth ac un ddyletswydd a/neu gyfrifoldeb | 1.5.1<br>Nodi swyddi gwahanol ym maes teithio a thwristiaeth gyda rhai enghreifftiau o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau | 1.5.1<br>Amlinellu swyddi gwahanol ym maes teithio a thwristiaeth gydag enghreifftiau o'u prif ddyletswyddau, cyfrifoldebau a'r sgiliau sydd eu hangen | /4 |
| | 1.5.2<br>Paru swydd teithio a thwristiaeth â sgìl neu rinwedd sydd ei angen ar gyfer y swydd honno | 1.5.2<br>Cysylltu o leiaf ddwy swydd â sgìl neu rinwedd sydd ei angen ar gyfer pob swydd | 1.5.2<br>Nodi'r prif sgiliau neu rinweddau personol sydd eu hangen ar gyfer swyddi gwahanol ym maes teithio a thwristiaeth | 1.5.2<br>Nodi'r sgiliau allweddol a'r rhinweddau personol sydd eu hangen ar gyfer amrywiaeth o swyddi gwahanol yn y diwydiant teithio a thwristiaeth | /4 |
| | | | **Cyfanswm nifer y pwyntiau a roddwyd** | | /48 |

.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Enghreifftiau o dasgau

### DD1.1

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gymorth):

- Gweithgaredd paru: mae dysgwyr yn paru lluniau o deithio (bws, awyren, car, trên) a thwristiaeth (traeth, mynyddoedd, atyniadau) â geiriau syml
- Tasg trefnu: mae dysgwyr yn categoreiddio Teithio neu Dwristiaeth
- Bingo teithio a thwristiaeth: galw allan gweithgareddau teithio a thwristiaeth ac mae dysgwyr yn dod o hyd iddyn  nhw ar gardiau bingo.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gymorth):

- Tasg rhestru-o-luniau: mae dysgwyr yn edrych ar amrywiaeth o luniau ac yn nodi'r mathau o deithio
- Taflenni dechrau brawddeg: mae dysgwyr yn cwblhau dechrau brawddeg fer "Ystyr teithio yw" / "Twristiaeth yw"
- Gweithgaredd fideo: mae dysgwyr yn gwylio clipiau fideo byr o weithgareddau twristiaeth yng Nghymru (er enghraifft Castell Caerdydd, traeth Dinbych-y-pysgod) ac yna ceir trafodaeth grŵp syml
- Poster: mae dysgwyr yn creu collage neu boster syml sy'n dangos enghreifftiau o deithio ac enghreifftiau o dwristiaeth.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel finimol o gymorth):

- Gweithgaredd llunio diffiniad: mae dysgwyr yn defnyddio cardiau geiriau i lunio diffiniad o deithio ac o dwristiaeth
- 
- Gweithgaredd fideo: mae dysgwyr yn gwylio fideo byr am dwristiaeth yng Nghymru ac yn ateb cwestiynau a arweinir
- Gweithgaredd cymharu: mae dysgwyr yn cwblhau gweithgaredd cymharu byr: teithio neu dwristiaeth gyda rhywfaint o esboniad
- Promptiau ysgrifennu byr: mae dysgwyr yn defnyddio promptiau megis "Teithio/twristiaeth yw pan...", "un enghraifft yw" ac "un rheswm dros deithio yw"

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- Ffeil ffeithiau: mae dysgwyr yn creu ffeiliau ffeithiau byr sy'n esbonio teithio a thwristiaeth gan ddefnyddio enghreifftiau o Gymru
- Cyflwyniad i Gymru: mae dysgwyr yn cynhyrchu tudalen ragarweiniol o ganllaw twristiaeth i Gymru gyda gwybodaeth am deithio a thwristiaeth yng Nghymru. Tasg ysgrifennu diffiniad: Mae dysgwyr yn ysgrifennu diffiniad clir o deithio a thwristiaeth gan ddefnyddio o leiaf ddwy enghraifft
- Astudiaeth Achos: Mae dysgwyr yn darllen senario byr (er enghraifft, gwyliau teulu) ac yn nodi elfennau teithio a thwristiaeth, gan gynnwys enghreifftiau a rhesymau dros deithio.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## DD1.2

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Mynediad (gyda lefel uchel o gymorth):

- Nodi llun: mae dysgwyr yn pwyntio at sector allweddol (er enghraifft llety)
- Gêm paru: mae dysgwyr yn paru eiconau (er enghraifft, gwesty, awyren, amgueddfa) ag enwau'r sector.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gymorth):

- Gweithgaredd trefnu lluniau: mae dysgwyr yn trefnu lluniau o lety, trafnidiaeth, atyniadau i ymwelwyr, digwyddiadau a gwasanaethau teithio
- Gan ddefnyddio cardiau mawr gyda disgrifiadau syml (gwesty, bws, castell, gŵyl) a'u grwpio yn ôl sector.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel finimol o gymorth):

- Taflen adnabod y sector: mae dysgwyr yn nodi'r sectorau allweddol
- Posteri sectorau: mae dysgwyr yn creu poster sy'n dangos y sectorau allweddol a'r hyn maen nhw'n ei ddarparu
- Tasg mapio'r diwydiant: mae dysgwyr yn creu map meddwl o rai o sectorau'r diwydiant teithio a thwristiaeth a'r hyn y maen nhw’n ei gynnig neu'n ei ddarparu i ymwelwyr.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- Tabl crynhoi'r sectorau: mae dysgwyr yn cwblhau tabl neu ddiagram sy'n cymharu'r sectorau ac enghreifftiau
- Tasgau ymchwil: mae dysgwyr yn ymchwilio i un busnes yng Nghymru ar gyfer pob sector (gwesty, atyniad, llwybr trafnidiaeth, canolfan ymwelwyr)
- Gweithgaredd grŵp bach: mae dysgwyr yn cynllunio diwrnod allan i ymwelydd ac yn nodi pa sectorau maen nhw'n eu defnyddio.

## DD1.3

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gymorth):

- Tasg mapiau: mae dysgwyr yn defnyddio mapiau symledig o Gymru ac yn nodi cyrchfannau maen nhw'n gyfarwydd â nhw
- Gweithgaredd synhwyraidd: rhoddir lluniau o draethau, mynyddoedd, cestyll ac yn y blaen i ddysgwyr ac maen nhw'n dewis beth maen nhw'n ei hoffi ac yn dweud pam
- Gweithgaredd paru: mae dysgwyr yn paru cardiau 'rheswm dros deithio' â lluniau (er enghraifft gwyliau, ymweld â'r teulu, digwyddiad).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gymorth):

- Tasg labelu mapiau: mae dysgwyr yn defnyddio mapiau symledig o Gymru ac yn gosod eiconau ar gyrchfannau poblogaidd
- Trafodaeth grŵp: mae dysgwyr yn trafod cyrchfannau maen nhw wedi ymweld â nhw neu y bydden nhw’n hoffi ymweld â nhw a'r gwahanol atyniadau maen nhw wedi'u mwynhau neu y bydden nhw’n eu mwynhau yno
- Poster: mae dysgwyr yn creu poster syml gyda rhesymau dros deithio i Gymru.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel finimol o gymorth):

- Tasg mapiau: Mae dysgwyr yn defnyddio mapiau syml i labelu cyrchfan leol yn ogystal â chyrchfan genedlaethol neu ryngwladol

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

- Gweithgaredd trefnu: mae dysgwyr yn defnyddio lluniau i nodi atyniadau naturiol, adeiledig a diwylliannol
- Gweithgaredd cyfweld: mae dysgwyr yn cyfweld â'u cyfoedion am eu hoff gyrchfannau a'u rhesymau dros deithio.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- Tasg mapiau: mae dysgwyr yn defnyddio mapiau o Gymru a thu hwnt i leoli a labelu cyrchfannau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- Tasg cymharu: mae dysgwyr yn ysgrifennu cymhariaeth o ddwy gyrchfan (er enghraifft Abertawe ac Eryri)
- Astudiaeth achos ymchwil: mae dysgwyr yn ymchwilio i atyniadau naturiol, adeiledig a diwylliannol ar gyfer cyrchfan yng Nghymru
- Arolwg dosbarth: mae dysgwyr yn cynnal arolwg byr gyda'u dosbarth ar gyrchfannau Cymru a rhyngwladol yr hoffen nhw ymweld â nhw a'u rhesymau dros deithio ac yn amlinellu'r ymatebion a dderbyniwyd.

DD1.4

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gymorth):

- Gweithgaredd trefnu lluniau: mae dysgwyr yn trefnu lluniau yn ôl effeithiau cadarnhaol a negyddol
- Syniadau ar gyfer y dyfodol: mae dysgwyr yn dewis o restr ei hoff opsiwn ar gyfer gwelliant posibl.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gymorth):

- Llenwi tabl: mae dysgwyr yn cwblhau tabl sy'n awgrymu effeithiau cadarnhaol a negyddol ar Gymru
- Mapio syniadau ar gyfer y dyfodol: mae dysgwyr yn cwblhau map meddwl syml gyda syniadau ar gyfer sut i wella teithio a thwristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel finimol o gymorth):

- Taflen ffeithiau: mae dysgwyr yn cwblhau taflen ffeithiau effeithiau cadarnhaol a negyddol
- Poster: mae dysgwyr yn dylunio poster marchnata syml sy'n annog twristiaeth gyfrifol

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- Dadansoddi effaith: mae dysgwyr yn defnyddio astudiaethau achos o Gymru (megis tagfeydd Bannau Brycheiniog, Ynys Môn yn ystod y tymor brig, digwyddiadau yng Nghaerdydd) i esbonio amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol a negyddol
- Tasg syniadau ar gyfer y dyfodol: mae dysgwyr yn cynhyrchu syniadau ar gyfer 'Twristiaeth yn y Dyfodol yng Nghymru' drwy ddylunio ffeithlun sy'n cynnwys llwybrau hygyrch, eco-drafnidiaeth, defnyddio technoleg.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## DD1.5

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gymorth):

- Cardiau fflach lluniau: mae dysgwyr yn enwi'r swydd o lun y swydd
- Gweithgaredd paru: mae dysgwyr yn paru swyddi â dyletswyddau a chyfrifoldebau, a sgiliau neu rinweddau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gymorth):

- Tasgau fideo: mae dysgwyr yn edrych ar bromptiau fideo i nodi rolau swydd a/neu ddyletswydd neu gyfrifoldeb
- Cardiau swyddi: mae dysgwyr yn creu cardiau swyddi gweledol bach gydag enw swydd + llun + un sgìl.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel finimol o gymorth):

- Hysbyseb swydd: mae dysgwyr yn creu proffiliau swyddi ar gyfer hysbysebion swyddi gan gynnwys dyletswyddau, sgiliau a rhinweddau. Chwarae rôl: mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn chwarae rôl syml o wahanol rolau swydd (croesawydd gwesty, tywysydd amgueddfa, criw caban awyren)
- Gweithgaredd tabl/siart: Mae dysgwyr yn cwblhau tabl sy'n cysylltu swyddi â sgiliau gydag esboniadau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- Disgrifiadau swyddi: mae dysgwyr yn creu proffiliau swyddi gan gynnwys dyletswyddau, sgiliau a rhinweddau
- Senario chwarae rôl: mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn senarios chwarae rôl, er enghraifft rhyngweithio â chwsmeriaid mewn atyniad
- Gweithgaredd ymchwil: mae dysgwyr yn cyfweld ag aelod o staff neu'n ymchwilio i weithle twristiaeth go iawn yng Nghymru.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- Archwilio'r cyfleoedd gyrfa amrywiol o fewn y diwydiant teithio a thwristiaeth drwy siarad â phobl yn y diwydiant.
- Archwilio'r cyfleoedd gyrfa amrywiol o fewn y diwydiant teithio a thwristiaeth trwy ddefnyddio adnoddau a gynhyrchir gan y diwydiant megis Gwaith mewn lletygarwch a thwristiaeth | Cymru'n Gweithio, Swyddi mewn Twristiaeth, Lletygarwch, Chwaraeon a Hamdden | Swyddi Dyfodol Cymru a Gyrfaoedd yn 360 - Cymru
- Dysgu am wahanol swyddi, llwybrau hyfforddiant a chymwysterau yn uniongyrchol gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant teithio a thwristiaeth drwy wahodd siaradwyr gwadd neu gynnal ymweliadau
- Meithrin ysbrydoliaeth a chymhelliad drwy glywed am deithiau gyrfa a straeon llwyddiant personol
- Rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r diwydiant teithio a thwristiaeth i gael mewnwelediad o lygad y ffynnon i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- Gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol yn y sector gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- Datblygu sgiliau rhwydweithio drwy ymgysylltu â staff teithio a thwristiaeth
- Ymweld â chyrchfannau lleol i dwristiaid er mwyn deall y profiad teithio a thwristiaeth o lygad y ffynnon.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.  Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Uned 2 Dylunio atyniad i dwristiaid i Gymru

| | |
|---|---|
| ODA | 72 |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn datblygu sgiliau a gwybodaeth ymarferol ar gyfer ymchwilio, datblygu syniadau ar gyfer, cynllunio, cyfathrebu ac adolygu cyrchfan i dwristiaid i Gymru. Bydd dysgwyr yn archwilio atyniadau i ymwelwyr yng Nghymru a sut maen nhw'n bodloni anghenion ymwelwyr ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon a sgiliau ymchwil i greu syniadau ar gyfer atyniad i dwristiaid. Bydd dysgwyr yn ennill profiad ymarferol o gynllunio, cyfathrebu ac adolygu syniadau ar gyfer atyniad.<br><br>Mae'r uned hon yn cefnogi dilyniant i astudiaeth bellach neu yrfaoedd mewn teithio a thwristiaeth trwy feithrin sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy megis deall a bodloni anghenion ymwelwyr, cynllunio a threfnu, cyfathrebu ac adolygu.<br><br>Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr wedi caffael gwybodaeth a sgiliau ymarferol, gan gynnwys sgiliau meddal sy'n hanfodol i yrfaoedd yn y diwydiant teithio a thwristiaeth. |
| Deilliannau Dysgu | Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:<br>DD2.1 – Gwybod am a deall ymwelwyr yng Nghymru a sut mae atyniadau'n bodloni anghenion a disgwyliadau ymwelwyr.<br>DD2.2 – Gallu defnyddio ymchwil i nodi atyniadau, mathau o ymwelwyr a'u hanghenion.<br>DD2.3 – Gallu creu syniad ar gyfer atyniad i dwristiaid yng Nghymru.<br>DD2.4 – Gallu cynllunio atyniad i dwristiaid yng Nghymru.<br>DD2.5 – Gallu cyfathrebu syniadau ar gyfer atyniad i dwristiaid yng Nghymru.<br>DD2.6 – Gallu adolygu'r atyniad i dwristiaid. |
| Crynodeb o'r asesu | Bydd asesu ar gyfer yr uned hon yn cael ei gynnal trwy weithgareddau a osodir gan yr athro/athrawes sy'n galluogi dysgwyr i ddangos yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a hygyrch.<br><br>Er mwyn cyflawni pob deilliant dysgu, rhaid i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf asesu. Mae gweithgareddau a thystiolaeth a awgrymir wedi'u cynnwys ar ôl yr uned.<br><br>Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw gweithgareddau asesu yn hirach na'r uchafswm hyd o 18 awr. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd yr asesu fel arfer o fewn yr amrediad dangosol o 14 – 18 awr, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gorasesu.<br><br>Rhaid i ganolfannau gofnodi'r amser bras y mae pob dysgwr yn ei dreulio ar weithgareddau asesu at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesiad. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn yr unedau Sgiliau Bywyd a Gwaith canlynol:<br>Sgiliau Bywyd: Cyfranogiad Cymunedol<br>Sgiliau Bywyd: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>Sgiliau Bywyd: Dewisiadau Moesegol<br>Sgiliau Bywyd: Sgiliau yn yr Amgylchedd Naturiol<br>Sgiliau Bywyd: Cynaliadwyedd ar Waith<br>Sgiliau Bywyd: Deall yr Hunan ac Eraill<br>Sgiliau Bywyd: Gwerthoedd Bywyd<br>Sgiliau Gwaith: Datblygu Economaidd Cynaliadwy<br>Sgiliau Gwaith: Gwasanaeth i Gwsmeriaid |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## Cynnwys

| **Deilliant dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| DD2.1<br>Gwybod am a deall ymwelwyr yng Nghymru a sut mae atyniadau yn bodloni anghenion a disgwyliadau ymwelwyr | Gwahanol fathau o ymwelwyr â Chymru er enghraifft:<br>• cyplau<br>• teuluoedd<br>• twristiaid tramor<br>• grwpiau ysgolion<br>• teithwyr unigol.<br><br>Anghenion ymwelwyr wrth ymweld ag atyniadau yng Nghymru, er enghraifft:<br>• hygyrchedd<br>• cyfleusterau<br>• diogelwch<br>• trafnidiaeth<br>• gwerth am arian<br>• gwybodaeth i ymwelwyr, gan gynnwys dewisiadau iaith.<br><br>Disgwyliadau ymwelwyr er enghraifft amrywiaeth ddeniadol o weithgareddau a phrofiadau, gwasanaeth rhagorol.<br><br>Sut mae atyniadau yng Nghymru yn bodloni anghenion ymwelwyr:<br>• hygyrchedd, megis mynediad hygyrch (rampiau, lifftiau, mannau tawel)<br>• cyfleusterau, megis toiledau, lleoedd newid babanod, opsiynau bwyta<br>• diogelwch, megis amgylchedd diogel a glân<br>• trafnidiaeth, megis llwybrau trafnidiaeth, meysydd parcio<br>• gwerth am arian, megis tocynnau i deuluoedd, gostyngiadau i grwpiau neu drwyddedau teyrngarwch, ardaloedd sy'n addas ar gyfer plant<br>• gwybodaeth i ymwelwyr, megis arwyddion, mapiau a thaflenni gan gynnwys dewisiadau dwyieithog ac amlieithog. |
| DD2.2<br>Gallu defnyddio ymchwil i nodi atyniadau, mathau o ymwelwyr a'u hanghenion | Offer gwahanol y gellir eu defnyddio i nodi atyniadau, mathau o ymwelwyr a'u hanghenion, megis holiaduron, arolygon, cyfweliadau a grwpiau ffocws i gasglu data.<br><br>Gwahanol ffynonellau gwybodaeth am atyniadau lleol neu genedlaethol yng Nghymru (enghreifftiau o atyniadau yn uned 1), er enghraifft gwefan Croeso Cymru, Tripadvisor a gwefannau byrddau croeso lleol er enghraifft Croeso Môn.<br><br>Gwahanol ffynonellau gwybodaeth am atyniadau rhyngwladol i dwristiaid a allai fod yn addas i Gymru.<br><br>Sut i gyflwyno canfyddiadau ymchwil. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| DD2.3<br>Gallu creu syniad ar gyfer atyniad i dwristiaid yng Nghymru | Sut i ddefnyddio ymchwil i nodi syniad am atyniad sy'n addas i Gymru, er enghraifft:<br>• Amgueddfa â thema, canolfan gweithgareddau awyr agored, atyniad bywyd gwyllt, atyniad diwylliannol, ardal chwarae dan do, safle treftadaeth, atyniad tymhorol.<br><br>Y mathau o ymwelwyr y mae'r atyniad wedi'i anelu atyn nhw, er enghraifft:<br>• Teuluoedd, cyplau, teithwyr unigol, twristiaid tramor, grwpiau ysgolion, trigolion lleol, ymwelwyr hŷn, rhai sy’n chwilio am antur, ymwelwyr ag anghenion hygyrchedd.<br><br>Prif nodweddion yr atyniad, er enghraifft:<br>• Ardaloedd â thema, arddangosfeydd, ardaloedd gwylio, mannau awyr agored a dan do. |
| DD2.4<br>Gallu dylunio atyniad i dwristiaid yng Nghymru | Ystyriaethau cynllunio ar gyfer atyniad i dwristiaid gan gynnwys:<br>• ble y dylai'r atyniad gael ei leoli a pham<br>• y gweithgareddau a'r profiadau y bydd yr atyniad yn eu darparu er mwyn bodloni disgwyliadau ymwelwyr (er enghraifft: sioeau byw, parthau gweithgareddau (megis reidiau ffair, ardal anifeiliaid) profiadau rhyngweithiol (megis bwydo anifeiliaid, gweithgareddau crefft)<br>• sut mae'r atyniad yn bodloni anghenion ymwelwyr, gan gynnwys:<br>    • hygyrchedd<br>    • cyfleusterau<br>    • diogelwch<br>    • trafnidiaeth<br>    • gwerth am arian<br>    • gwybodaeth i ymwelwyr megis dewisiadau iaith. |
| DD2.5<br>Gallu cyfathrebu syniadau ar gyfer atyniad i dwristiaid yng Nghymru | Dulliau cyfathrebu ar gyfer syniadau dylunio er enghraifft, cyflwyniad, posteri, lluniadau, diagramau.<br><br>Gwybodaeth bwysig sydd ei hangen, gan gynnwys:<br>• enw'r atyniad<br>• lleoliad<br>• ar gyfer pwy mae'r atyniad<br>• gweithgareddau allweddol<br>• cyfleusterau allweddol<br>• costau neu gynigion arbennig.<br><br>Sut y caiff gwybodaeth ei chyflwyno gan gynnwys:<br>• strwythur clir<br>• cynllun<br>• defnyddio deunydd gweledol.<br><br>Cyfathrebu gwybodaeth i eraill gan gynnwys:<br>• manylion gwybodaeth bwysig<br>• eglurder/cywirdeb gwybodaeth<br>• ymateb i ymholiadau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | |
|---|---|
| DD2.6<br>Gallu adolygu'r atyniad i dwristiaid | Ystyried cryfderau a gwendidau'r dyluniad a chyfathrebu'r syniad ar gyfer atyniad, gan gynnwys:<br>• a yw'r atyniad yn addas i Gymru?<br>• a yw'r atyniad yn briodol ar gyfer y math o ymwelydd arfaethedig?<br>• a yw'r gweithgareddau a'r profiadau yn bodloni disgwyliadau'r ymwelwyr?<br>• a yw'r cyfathrebu ar gyfer yr atyniad yn apelio at ymwelwyr?<br><br>Nodi cryfderau a gwendidau personol wrth ddylunio a chyfathrebu'r atyniad, gan gynnwys:<br>• sgiliau ymchwilio<br>• creadigrwydd y syniadau neu'r cyflwyniad<br>• cynllunio<br>• sgiliau cyfathrebu.<br><br>Ar gyfer Lefel 1<br><br>Nodi meysydd gwella personol mewn perthynas â'u gwendidau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu – Bydd y dysgwr yn** | **Meini prawf Asesu – Gall y dysgwr** | | | | **Pwyntiau a roddwyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 Gyda lefel uchel o gymorth (1 pwynt)** | **Mynediad 2 Gyda lefel ganolig o gymorth (2 bwynt)** | **Mynediad 3 Gyda lefel finimol o gymorth (3 phwynt)** | **Lefel 1 Yn annibynnol (4 pwynt)** | |
| DD2.1 Gwybod am a deall ymwelwyr yng Nghymru a sut mae atyniadau yn bodloni anghenion a disgwyliadau ymwelwyr | 2.1.1 Nodi o restr un math o ymwelydd â Chymru | 2.1.1 Rhestru o leiaf ddau fath o ymwelwyr â Chymru | 2.1.1 Disgrifio gwahanol fathau o ymwelwyr â Chymru | 2.1.1 Esbonio amrywiaeth o fathau gwahanol o ymwelwyr â Chymru | /4 |
| | 2.1.2 Nodi o restr un angen neu ddisgwyliad sydd gan ymwelwyr wrth ymweld â Chymru | 2.1.2 Nodi o leiaf ddau angen a/neu ddisgwyliad sydd gan ymwelwyr wrth ymweld â Chymru | 2.1.2 Amlinellu anghenion a disgwyliadau gwahanol ymwelwyr wrth ymweld â Chymru | 2.1.2 Esbonio amrywiaeth o anghenion a disgwyliadau ymwelwyr wrth ymweld â Chymru | /4 |
| | 2.1.3 Paru un ffordd y mae atyniad yn bodloni anghenion neu ddisgwyliadau ymwelwyr | 2.1.3 Nodi o leiaf ddwy ffordd y mae atyniad yn bodloni anghenion neu ddisgwyliadau ymwelwyr | 2.1.3 Amlinellu gwahanol ffyrdd y mae atyniad a enwir yn bodloni anghenion a disgwyliadau ymwelwyr | 2.1.3 Esbonio amrywiaeth o ffyrdd y mae atyniad a enwir yn bodloni amrywiaeth o anghenion a disgwyliadau ymwelwyr | /4 |
| DD2.2 Gallu defnyddio ymchwil i nodi atyniadau, mathau o ymwelwyr a'u hanghenion | 2.2.1 Dewis cwestiwn o restr i'w gynnwys mewn adnodd ymchwil am anghenion ymwelwyr neu atyniadau i ymwelwyr | 2.2.1 Dewis o leiaf ddau gwestiwn ar gyfer adnodd ymchwil am anghenion ymwelwyr neu atyniadau i ymwelwyr | 2.2.1 Creu cwestiynau ar gyfer adnodd ymchwil i ddarganfod mwy am anghenion ymwelwyr ac atyniadau i ymwelwyr | 2.2.1 Dylunio adnodd ymchwil i gynnwys amrywiaeth o gwestiynau er mwyn darganfod mwy am anghenion ymwelwyr ac atyniadau i ymwelwyr | / |
| | 2.2.2 Defnyddio un cwestiwn i ddarganfod mwy am | 2.2.2 Cynnal ymchwil trwy ofyn o leiaf ddau | 2.2.2 Cynnal ymchwil trwy ddefnyddio cwestiynau a | 2.2.2 Defnyddio adnodd ymchwil i gasglu amrywiaeth o | /4 |

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | anghenion ymwelwyr neu atyniadau i ymwelwyr | gwestiwn am anghenion ymwelwyr neu atyniadau i ymwelwyr | grëwyd i gasglu ymatebion am anghenion ymwelwyr ac atyniadau i ymwelwyr | ymatebion am anghenion ymwelwyr ac atyniadau i ymwelwyr | |
| | 2.2.3<br>Dangos yr ymatebion a gasglwyd o'r cwestiwn am anghenion ymwelwyr neu atyniadau i ymwelwyr | 2.2.3<br>Dangos yr ymatebion a gasglwyd o ddau gwestiwn o leiaf am anghenion ymwelwyr neu atyniadau i ymwelwyr | 2.2.3<br>Cyflwyno'r canfyddiadau o'r cwestiynau ymchwil am anghenion ymwelwyr ac atyniadau i ymwelwyr | 2.2.3<br>Egluro'r canfyddiadau o'r adnodd ymchwil am anghenion ymwelwyr ac atyniadau i ymwelwyr, gan ddefnyddio'r canfyddiadau i ddod i gasgliad | /4 |
| | 2.2.4<br>Defnyddio ffynhonnell wybodaeth i ddarganfod mwy am atyniad yng Nghymru | 2.2.4<br>Defnyddio o leiaf ddau fath o ffynhonnell wybodaeth i ddarganfod mwy am atyniadau yng Nghymru | 2.2.4<br>Dangos eich canfyddiadau o ffynonellau gwybodaeth gwahanol am atyniadau gwahanol yng Nghymru | 2.2.4<br>Cyflwyno eich canfyddiadau o amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth am atyniadau gwahanol yng Nghymru | /4 |
| DD2.3<br>Gallu creu syniad ar gyfer atyniad i dwristiaid yng Nghymru | 2.3.1<br>Dangos syniad ar gyfer atyniad newydd yng Nghymru | 2.3.1<br>Lluniadu syniad ar gyfer atyniad newydd yng Nghymru gyda rheswm | 2.3.1<br>Egluro syniad ar gyfer atyniad newydd yng Nghymru, gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o gwestiynau ymchwil neu ffynonellau gwybodaeth | 2.3.1<br>Llunio syniad ar gyfer atyniad newydd yng Nghymru, gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o gwestiynau ymchwil ac amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth | /4 |
| | 2.3.2<br>Dewis o restr un math o ymwelydd y mae'r atyniad wedi'i anelu ato | 2.3.2<br>Nodi'r math/mathau o ymwelwyr y mae'r atyniad wedi'i anelu atyn nhw | 2.3.2<br>Nodi'r math/mathau o ymwelwyr y mae'r atyniad wedi'i anelu atyn nhw, gan roi o leiaf un rheswm | 2.3.2<br>Cyflwyno'r math/mathau o ymwelwyr y mae'r atyniad wedi'i anelu atyn nhw, gyda rhesymau | /4 |
| | 2.3.3 | 2.3.3 | 2.3.3 | 2.3.3 | |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dangos un nodwedd yr atyniad a ddewiswyd | Lluniadu dwy brif nodwedd yr atyniad a ddewiswyd | Egluro rhai o brif nodweddion yr atyniad a ddewiswyd a sut maen nhw'n apelio at y math/mathau o ymwelwyr y mae'r atyniad wedi'i anelu atyn nhw | Dylunio prif nodweddion yr atyniad a ddewiswyd, gan archwilio sut maen nhw'n apelio at y math/mathau o ymwelwyr y mae'r atyniad wedi'i anelu atyn nhw | /4 |
| DD2.4<br>Gallu dylunio atyniad i dwristiaid yng Nghymru | 2.4.1<br>Nodi, gan ddefnyddio map wedi'i labelu, ble dylai'r atyniad gael ei leoli | 2.4.1<br>Labelu ble dylai'r atyniad gael ei leoli ar fap | 2.4.1<br>Dangos ble dylai'r atyniad gael ei leoli gan roi rheswm | 2.4.1<br>Egluro ble dylai'r atyniad gael ei leoli ar fap gydag esboniad o'ch dewis | |
| | 2.4.2<br>Awgrymu gweithgaredd neu brofiad y bydd yr atyniad yn ei ddarparu gan ddefnyddio promptiau neu luniau | 2.4.2<br>Dangos o leiaf ddau weithgaredd neu brofiad y bydd yr atyniad yn eu darparu | 2.4.2<br>Egluro gweithgareddau neu brofiadau y bydd yr atyniad yn eu darparu, gan ddangos sut maen nhw'n bodloni disgwyliadau ymwelwyr | 2.4.2<br>Dylunio gweithgareddau a phrofiadau y bydd yr atyniad yn eu darparu, gan ddangos yn glir sut maen nhw'n bodloni disgwyliadau ymwelwyr | /4 |
| | 2.4.3<br>Awgrymu sut y bydd yr atyniad yn bodloni anghenion ymwelwyr o restr | 2.4.3<br>Dangos sut y bydd yr atyniad yn bodloni o leiaf ddau angen ymwelwyr | 2.4.3<br>Dangos sut y bydd yr atyniad yn bodloni anghenion ymwelwyr gan roi enghreifftiau | 2.4.3<br>Cyflwyno sut y bydd yr atyniad yn bodloni amrywiaeth o anghenion ymwelwyr gydag esboniad o'ch dewisiadau | /4 |
| DD2.5<br>Gallu cyfathrebu syniadau ar gyfer atyniad i dwristiaid yng Nghymru | 2.5.1<br>Cwblhau templed o ddull syml i gyfathrebu eich syniad ar gyfer atyniad i dwristiaid gan gynnwys dau ddarn o wybodaeth bwysig | 2.5.1<br>Creu deunyddiau i gyfathrebu syniad dylunio gan ddefnyddio dull cyfathrebu sy'n cynnwys y wybodaeth bwysicaf. | 2.5.1<br>Creu deunyddiau i gyfathrebu syniad dylunio gan ddefnyddio dull cyfathrebu priodol sy'n cynnwys y wybodaeth bwysicaf a rhai elfennau cyflwyno | 2.5.1<br>Dylunio deunyddiau i gyfathrebu syniad dylunio gan ddefnyddio dull cyfathrebu effeithiol sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig, | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | strwythur a chynllun clir a'r defnydd o ddeunydd gweledol | |
| | 2.5.2<br>Tynnu sylw eraill at syniad sy'n cynnwys dau ddarn o wybodaeth bwysig | 2.5.2<br>Cyfathrebu syniad i eraill sy'n cynnwys y wybodaeth bwysicaf | 2.5.2<br>Dangos syniadau i eraill gan gynnwys gwybodaeth bwysig ac ymateb i rai ymholiadau | 2.5.2<br>Cyflwyno syniadau i eraill gan gynnwys gwybodaeth bwysig ac ymateb i ymholiadau | /4 |
| DD2.6<br>Gallu adolygu'r atyniad i dwristiaid | 2.6.1<br>Nodi'r hyn maen nhw'n ei hoffi neu nad ydyn nhw'n ei hoffi am ddyluniad neu gyfathrebiad eu hatyniad | 2.6.1<br>Nodi o leiaf ddau gryfder a / neu wendid dyluniad yr atyniad a'r cyfathrebiad | 2.6.1<br>Amlinellu cryfderau a gwendidau allweddol dyluniad yr atyniad a'r cyfathrebiad | 2.6.1<br>Gwerthuso cryfderau a gwendidau ym mhob agwedd ar ddyluniad yr atyniad a'r cyfathrebiad | /4 |
| | 2.6.2<br>Nodi beth wnaethon nhw'n dda neu ddim cystal | 2.6.2<br>Nodi o leiaf ddau gryfder a/neu wendid personol | 2.6.2<br>Amlinellu cryfderau a gwendidau personol mewn perthynas â sgiliau ymchwil, creadigrwydd syniadau a sgiliau cyflwyno, cynllunio a chyfathrebu | 2.6.2<br>Gwerthuso cryfderau a gwendidau personol mewn perthynas â sgiliau ymchwil, creadigrwydd syniadau a sgiliau cyflwyno, cynllunio a chyfathrebu gan gynnwys awgrym ar gyfer gwella | /4 |
| | | | | | |
| | | | **Cyfanswm nifer y pwyntiau a roddwyd** | | x/68 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Enghreifftiau o dasgau

### DD2.1

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gymorth):

- Gweithgaredd nodi: mae dysgwyr yn nodi'r math o ymwelydd (er enghraifft, teulu, teithiwr unigol, cwpl) drwy ddewis o luniau
- Paru lluniau: mae dysgwyr yn paru mathau o ymwelwyr â'u hanghenion gan ddefnyddio lluniau
- Trafodaeth grŵp bach: mae dysgwyr yn trafod lleoedd y maen nhw wedi ymweld â nhw neu yr hoffen nhw ymweld â nhw ac yn disgrifio sut mae nodwedd y gyrchfan hon neu'r atyniad hwn yn bodloni eu hanghenion.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gymorth):

- Gweithgaredd trefnu: mae dysgwyr yn trefnu cardiau sy'n dangos o leiaf ddau fath o ymwelwyr
- Fideos: mae dysgwyr yn nodi angen a disgwyliad ymwelydd mewn ymateb i bromptiau fideo
- “Fy hoff le yng Nghymru”: mae dysgwyr yn creu tudalen sy'n nodi nodweddion cadarnhaol sy'n bodloni neu a allai fodloni eu hanghenion yn eu hoff le yng Nghymru.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel finimol o gymorth):

- Tasg disgrifio byr: mae dysgwyr yn ysgrifennu disgrifiad byr o ymwelwyr yng Nghymru gan ddefnyddio promptiau
- Ymchwil: mae dysgwyr yn ymchwilio i wahanol fathau o ymwelwyr
- Llenwi tabl: mae dysgwyr yn llenwi tabl gan baru grwpiau ymwelwyr ag anghenion, disgwyliadau, atyniadau
- Adolygiadau: mae dysgwyr yn edrych ar adolygiadau (TripAdvisor/Croeso Cymru) i weld sut mae un atyniad a enwir yn bodloni anghenion.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- Astudiaeth achos: mae dysgwyr yn dewis atyniad go iawn yng Nghymru ac yn ymchwilio i wahanol fathau o ymwelwyr i'r atyniad, anghenion gwahanol y mathau hyn o ymwelwyr a sut mae'r atyniad yn bodloni'r anghenion hyn.

### DD2.2

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gymorth):

- Dewis o restr: mae dysgwyr yn dewis cwestiwn yr hoffen nhw ei ofyn o restr wedi'i diffinio ymlaen llaw
- Holi: mae dysgwyr yn gofyn cwestiynau syml i gyfoedion/staff gan ddefnyddio'r symbolau/cwestiynau ie-na a ddewiswyd
- Cyfrifo'r canlyniadau: mae dysgwyr yn dangos yr ymatebion gan ddefnyddio ticiau neu farciau cyfrif syml
- Archwilio lluniau/gwybodaeth o wefan Croeso Cymru neu wefannau byrddau croeso gyda chymorth.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gymorth):

- Dewis symbolau/cwestiynau ie-na ar gyfer arolwg syml am atyniadau neu anghenion ymwelwyr
- Gofyn y cwestiynau a ddewiswyd i grwpiau bach o gyfoedion
- Crynodeb: bydd dysgwyr yn cynhyrchu crynodeb o'r atebion i'r cwestiynau ie/na gyda chymorth
- Prosiect ymchwil bach: mae dysgwyr yn defnyddio gwahanol wybodaeth gyhoeddedig (er enghraifft gwefannau, taflenni) i ddarganfod mwy am atyniadau yn eu hardal leol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel finimol o gymorth):

- Ysgrifennu cwestiynau: mae dysgwyr yn ysgrifennu cwestiynau agored/caeedig ar gyfer arolwg byr
- Cynnal ymchwil: mae dysgwyr yn cynnal arolwg gyda chyfoedion a staff
- Graff / siart llun: mae dysgwyr yn creu graff / siart llun syml sy'n cynrychioli atebion ie/na gyda chymorth
- Cyflwyniad: mae dysgwyr yn creu cyflwyniad byr sy'n dangos canfyddiadau o wahanol ffynonellau gwybodaeth.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- Dylunio adnodd ymchwil: mae dysgwyr yn creu adnodd gan ddefnyddio amrywiaeth o fathau o gwestiynau
- Cynnal ymchwil: mae dysgwyr yn defnyddio eu hadnodd i gasglu ymatebion gan amrywiaeth o fathau o ymwelwyr (e.e. cyfoedion, teulu ac yn y blaen)
- Dangos canlyniadau: mae dysgwyr yn creu siart / tabl o ganlyniadau ac yn crynhoi'r casgliadau
- Gweithgaredd cymharu: mae dysgwyr yn cymharu canfyddiadau o ddwy ffynhonnell o leiaf (er enghraifft, Croeso Cymru a TripAdvisor neu wefan atyniad).

## DD2.3

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gymorth):

- Syniadau: mae dysgwyr yn defnyddio lluniau i ddangos syniad ar gyfer atyniad newydd
- Gweithgaredd lluniau: mae dysgwyr yn dewis at ba fath o ymwelwyr y mae atyniad wedi'i anelu o gardiau llun (teuluoedd, twristiaid, grwpiau ysgolion)
- Labelu: mae dysgwyr yn ychwanegu eicon syml at y dyluniad sy'n dangos nodwedd (caffi, parcio, ardal chwarae).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gymorth):

- Gweithgaredd lluniadu: mae dysgwyr yn defnyddio templed lluniadu i ddangos syniad ar gyfer atyniad gyda rheswm syml. Bydd y lluniad yn cynnwys prif nodweddion yr atyniad a ddewiswyd
- Gweithgaredd labelu: mae dysgwyr yn dangos mathau o ymwelwyr gan ddefnyddio lluniau wedi'u labelu neu destun syml.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel finimol o gymorth):

- Gweithgaredd lluniadu: mae dysgwyr yn darlunio syniad ar gyfer atyniad sy'n cysylltu â'u hymchwil mewn rhyw ffordd. Llenwi tabl: mae dysgwyr yn cwblhau tabl i nodi'r mathau o ymwelwyr targed gyda rheswm
- Map: mae dysgwyr yn creu map sylfaenol o'r atyniad sy'n dangos rhai o'r prif nodweddion.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

Byddai'r gweithgaredd estynedig canlynol yn addas i'w ddefnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- Gweithgaredd dylunio: mae dysgwyr yn cwblhau dyluniad manwl neu'n adeiladu model o'u syniad i gynnwys y prif nodweddion a'r rhesymau dros eu dewisiadau dylunio yn seiliedig ar eu hymchwil
- Esboniad ysgrifenedig: bydd dysgwyr yn ysgrifennu manylion y mathau o ymwelwyr y mae eu hatyniad wedi'i anelu atyn nhw gyda rhesymau.

## DD2.4

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gymorth):

- Sticeri lleoliadau: mae dysgwyr yn dewis lleoliad ar gyfer yr atyniad yng Nghymru drwy osod sticer ar fap
- Dewis lluniau: mae dysgwyr yn dewis gweithgareddau ar gyfer yr atyniad o gardiau llun (arddangosfeydd, parthau chwarae, ardaloedd gwylio)
- Labeli eiconau: mae dysgwyr yn defnyddio eiconau ar gyfer hygyrchedd, diogelwch, toiledau, trafnidiaeth i labelu'r dyluniad.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gymorth):

- Gwaith mapiau: mae dysgwyr yn defnyddio mapiau symledig o Gymru ac yn labelu ble dylai'r atyniad gael ei leoli
- Cynhyrchu syniadau ar gyfer gweithgareddau a phrofiadau: mae dysgwyr yn creu map meddwl o syniadau ar gyfer gweithgareddau a phrofiadau ac yn nodi eu dewisiadau
- Llenwi tabl: mae dysgwyr yn cwblhau tabl i ddangos o leiaf ddau angen ymwelwyr a sut y bydd yr atyniad yn eu bodloni.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel finimol o gymorth):

- Gwaith mapiau: mae dysgwyr yn nodi lleoliad gan ddefnyddio mapiau ac yn rhoi rheswm dros eu dewis
- Cynhyrchu tabl: mae dysgwyr yn cynhyrchu tabl sy'n rhestru gweithgareddau/profiadau a sut maen nhw'n bodloni disgwyliadau ymwelwyr
- Labelu mapiau: mae dysgwyr yn defnyddio'r map o 2.3 ac yn labelu sut y bydd yr atyniad yn bodloni anghenion ymwelwyr (er enghraifft, parcio, trafnidiaeth, cyfleusterau, rampiau, ardaloedd tawel).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):

- Gwaith mapiau: mae dysgwyr yn nodi lleoliad gan ddefnyddio mapiau ac yn esbonio'r lleoliad y maen nhw wedi'i ddewis
- Amserlen gweithgareddau: mae dysgwyr yn cynhyrchu amserlen gweithgareddau sy'n gysylltiedig â disgwyliadau ymwelwyr ar gyfer eu hatyniad
- Esboniad ysgrifenedig: mae dysgwyr yn ysgrifennu manylion am sut mae'r atyniad yn bodloni amrywiaeth o anghenion (er enghraifft, diogelwch, hygyrchedd, cyfleusterau, gwerth am arian).

## DD2.5

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gymorth):

- Templed poster: mae dysgwyr yn defnyddio templed i greu poster syml gan gynnwys enw + lleoliad + un nodwedd

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

- Gweithgaredd gyda phartner: mae dysgwyr yn gweithio gyda phartner ac yn tynnu sylw at syniadau o'u poster.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gymorth):
- Sioe sleidiau: mae dysgwyr yn creu sleid syml sy'n cynnwys y wybodaeth bwysicaf
- Gwaith grŵp: mae dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach i ddangos eu sleidiau/syniadau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda lefel finimol o gymorth):
- Cyflwyniad: mae dysgwyr yn creu cyflwyniad digidol o syniadau ar gyfer atyniad
- Cyflwyniad grŵp/dosbarth: mae dysgwyr yn cyflwyno syniadau i'r dosbarth gyda sesiwn holi ac ateb.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):
- Deunyddiau cynnig syniad: mae dysgwyr yn dylunio ac yn cynhyrchu deunyddiau sy'n cyfathrebu syniadau ar gyfer atyniad i gefnogi cynnig syniad yn strwythuredig
- Cynnig syniad yn arddull 'Dragon's Den': mae dysgwyr yn 'cynnig eu syniadau' ar gyfer atyniad i'r dosbarth, gan ateb cwestiynau yn ôl yr angen.

DD2.6

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gymorth):
- Adolygiad wyneb hapus/trist o'r atyniad
- Dewis symbolau neu ddatganiadau sy'n dangos "rhywbeth wnes i'n dda" a "rhywbeth oedd yn anodd i mi”.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel ganolig o gymorth):
- Banc datganiadau: bydd dysgwyr yn defnyddio banciau datganiadau i dynnu sylw at gryfderau a gwendidau dyluniad yr atyniad a'r cyfathrebiad
- Gweithgaredd trefnu: bydd dysgwyr yn trefnu datganiadau ar gryfderau a gwendidau gan nodi pa mor dda yr oedden nhw wedi’i wneud.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3:
- Rhestr wirio: gallai dysgwyr ddefnyddio rhestr wirio i adolygu dyluniad eu hatyniad a'r cyfathrebu ohono
- Beth aeth yn dda/ Beth fyddai'n well os: bydd dysgwyr yn cwblhau dechrau brawddegau ar beth aeth yn dda a beth allai wedi bod yn well mewn perthynas â sgiliau ymchwil, creadigrwydd syniadau a sgiliau cyflwyno, cynllunio a chyfathrebu.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (yn annibynnol):
- Nodiadau adfyfyriol: bydd dysgwyr yn gwneud nodiadau sy'n adfyfyrio ar ymchwil, creadigrwydd, cynllunio, cyfathrebu
- Gweithgaredd grid: bydd dysgwyr yn dylunio ac yn cwblhau grid i lunio barn ar eu cryfderau a'u gwendidau personol mewn perthynas â sgiliau ymchwil, creadigrwydd syniadau a sgiliau cyflwyno, cynllunio a chyfathrebu
- Gwelliannau: bydd dysgwyr yn nodi gwelliannau sy'n ymwneud â'u gwendidau.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- Rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r diwydiant teithio a thwristiaeth i gael mewnwelediad o lygad y ffynnon i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- Gofyn cwestiynau am a thrafod atyniadau ac ymwelwyr gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- Datblygu sgiliau rhwydweithio drwy ymgysylltu â staff teithio a thwristiaeth
- Ymweld â chyrchfannau lleol i dwristiaid er mwyn deall y profiad teithio a thwristiaeth o lygad y ffynnon.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# 3. Asesu

Asesir y cymhwyster hwn trwy bortffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol a sicrheir ei ansawdd yn allanol trwy broses o gymedroli allanol. Mae gwybodaeth am y broses gymedroli i'w gweld yn y ddogfen *Asesu Mewnol: Canllaw i ganolfannau*, y gellir ei gweld yn adran weinyddu gwefan CBAC.

Dim ond ar ôl cwblhau'r addysgu a'r dysgu perthnasol y dylid cynnal yr asesu. Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw dysgwyr yn cael eu hasesu'n barhaus neu'n gynamserol.

## 3.1. Tasgau asesu

Mae gan athrawon yr hyblygrwydd i ddylunio tasgau a gweithgareddau asesu sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr orau. Mae'r dull hwn yn galluogi teilwra asesiadau i ddiddordebau, galluoedd a chyd-destun pob grŵp o ddysgwyr. Mae hefyd yn caniatáu i athrawon fod yn greadigol ac i gynnig ystod o gyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

Rhaid i dasgau asesu alluogi dysgwyr i fodloni pob maen prawf asesu ar gyfer yr uned ar y lefel sy'n briodol i'w perfformiad. Mae pob maen prawf asesu wedi'i strwythuro ar draws pedair lefel, o Fynediad 1 i Lefel 1, a gall cyflawniad dysgwr amrywio ar draws gwahanol dasgau o fewn yr un uned. Mae'r dull hwn yn cydnabod cynnydd ym mhob cam ac yn gwerthfawrogi cyflawniad, datblygu sgiliau, a thwf yr unigolyn.

Er mwyn cefnogi canolfannau i ddylunio asesiadau addas, darperir tasgau enghreifftiol ar ôl pob uned o fewn y fanyleb hon. Er bod yr enghreifftiau hyn wedi'u cyflwyno ar gyfer pob deilliant dysgu unigol, gall athrawon ddyfeisio tasgau sy'n rhychwantu nifer o ddeilliannau dysgu, ar yr amod eu bod yn galluogi dysgwyr i ddangos cyflawni'r holl feini prawf asesu perthnasol ar y lefel sy'n briodol i'w perfformiad.

## 3.2. Hyd yr asesiad

Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw gweithgareddau asesu yn hirach na'r uchafswm hyd a nodir yn y crynodeb o'r uned ar gyfer pob uned. Bwriad hyn yw cefnogi cymharu ar draws canolfannau tra'n caniatáu addasiadau rhesymol yn seiliedig ar anghenion dysgwyr a natur tasgau a ddyfeisiwyd gan ganolfannau.

Ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr, dylai gweithgareddau asesu fel arfer fod o fewn yr amser dangosol ar gyfer pob uned, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gorasesu.

Rhaid i ganolfannau gofnodi'r amser bras a dreulir ar weithgareddau asesu ar gyfer pob dysgwr a phob uned. Rhaid cadw'r cofnodion hyn at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 3.3. Gofynion tystiolaeth

Gall dysgwyr ddangos eu bod wedi bodloni'r meini prawf asesu drwy amrywiaeth o fathau o dystiolaeth, gan gynnwys:

- arsylwad athro/athrawes – arsylwi'r dysgwr yn uniongyrchol yn cyflawni tasg neu weithgaredd.
- aseiniadau neu dasgau ysgrifenedig – ymatebion ysgrifenedig strwythuredig i dasgau wedi'u gosod, sy'n briodol i lefel y dysgwr.
- allbynnau creadigol – gwaith celf, modelau, cyfryngau digidol, neu gynhyrchion creadigol eraill sy'n dangos sgiliau cymhwysol.
- tystiolaeth gwaith grŵp – cyfraniadau at dasgau grŵp, wedi'u cefnogi gan nodiadau arsylwi neu adfyfyrio'r dysgwr.
- datganiad y dysgwr – cofnod ysgrifenedig neu wedi'i recordio gan y dysgwr yn adfyfyrio ar yr hyn a wnaeth a'r hyn a ddysgodd.
- asesiad gan gymheiriaid neu hunanasesiad – cyfleoedd strwythuredig i ddysgwyr werthuso eu gwaith eu hunain neu waith eraill (gydag arweiniad).
- tystiolaeth ffotograffig – lluniau sy'n dangos gwaith y dysgwr neu ei gyfranogiad mewn gweithgaredd, gan roi'r cyd-destun.
- llyfrau gwaith ymarferol neu lyfrau log – cofnodion o weithgareddau a gwblhawyd dros amser, gan gynnwys adfyfyrio ac adborth.
- gwaith prosiect – tasgau estynedig neu ymchwiliadau sy'n dangos cynllunio, gweithredu ac adolygu.
- gweithgareddau efelychiadol - tasgau a gyflawnwyd mewn amgylchedd wedi'i reoli sy'n ailadrodd senarios y byd go iawn.
- yr athro/athrawes/aseswr yn holi – ymatebion i gwestiynau strwythuredig, naill ai wedi'u hysgrifennu neu ar lafar, i gadarnhau dealltwriaeth.
- recordiadau fideo/sain – recordiadau o'r dysgwr yn cyflawni tasg, yn rhoi cyflwyniad, neu'n cymryd rhan mewn trafodaeth.
- tystiolaeth tystion – datganiadau gan athrawon, staff cymorth, neu eraill sydd wedi arsylwi perfformiad y dysgwr.

Dylid casglu tystiolaeth dysgwyr ar gyfer pob uned mewn portffolio ar gyfer asesu mewnol a chymedroli allanol. Mae'r term 'portffolio' yn cyfeirio at gasgliad strwythuredig o dystiolaeth.

Rhaid cynnwys Cofnod Asesu'r Dysgwr wedi'i gwblhau gyda'r portffolio. Bydd hwn ar gael ar dudalen cymwysterau gwefan CBAC (bydd dolen yn cael ei hychwanegu pan fydd y dudalen ar gael). Rhaid defnyddio Cofnod Asesu'r Dysgwr i gofnodi:

- y gweithgareddau asesu y mae'r dysgwr wedi'u cwblhau (yr hyn maen nhw wedi'i wneud)
- ymhle mae'r dystiolaeth wedi'i lleoli
- sylwadau'r athro/athrawes
- lefel y cymorth a'r arweiniad y mae'r dysgwr wedi'i derbyn
- cyfanswm yr amser yn fras y mae'r dysgwr wedi'i dreulio ar asesiad
- pa feini prawf asesu y mae'r dysgwr wedi'u bodloni
- y radd a ddyfarnwyd a chyfanswm nifer y meini prawf asesu a gyflawnwyd ar lefel y radd a ddyfarnwyd neu'n uwch na hynny.

Rhaid cyflwyno'r holl dystiolaeth yn ddigidol. Pan fydd dysgwyr yn cynhyrchu gwaith ar bapur neu dystiolaeth ffisegol, dylid sganio, tynnu lluniau neu ffilmio'r rhain fel bod modd cyflwyno fersiwn ddigidol glir. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y broses gyflwyno yn y ddogfen e-gyflwyno: *IAMIS (System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol) Uwchlwytho – Canllawiau Pynciol*, y ceir mynediad ati o adran weinyddu gwefan CBAC.

.

© WJEC CBAC Ltd 2026

DRAFT

## 3.4. Cymorth ac arweiniad

Dylai athrawon gefnogi dysgwyr wrth iddyn nhw adeiladu eu portffolio. Dylai cymorth adlewyrchu'r lefel gweithio'r dysgwr.

- Bydd angen lefel uchel o gymorth ar ddysgwyr Mynediad 1, gan gynnwys cymorth llafar, gweledol ac ymarferol, defnyddio symbolau, neu dechnoleg gynorthwyol. Dylai tasgau a chasglu tystiolaeth fod yn strwythuredig iawn i alluogi cyfranogi a chyflawni ystyrlon trwy ymgysylltiad â chymorth.
- Dylai dysgwyr Mynediad 2 ddangos annibyniaeth gynyddol amlwg ond efallai y bydd arnyn nhw angen promptiau, cwestiynu dan arweiniad neu dempledi sgaffald i gynllunio, trefnu ac adfyfyrio ar eu gwaith.
- Disgwylir i ddysgwyr Mynediad 3 weithio gyda chymorth minimol, ac angen arweiniad achlysurol yn unig i gadarnhau dealltwriaeth neu adolygu cynnydd.
- Dylai dysgwyr Lefel 1 weithio'n annibynnol tra’n parhau i dderbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i lwyddo. Gall athrawon a thiwtoriaid roi cyngor ar gynllunio a strwythuro eu hatebion, ac ar sut i ddod o hyd i wybodaeth a chyflwyno tystiolaeth, lle bo hynny'n briodol. Gall cymorth hefyd gynnwys egluro cyfarwyddiadau, annog adfyfyrio neu helpu dysgwyr i nodi'r camau nesaf, heb gwblhau'r gwaith ar ran y dysgwr.

Mae'r model graddedig hwn o gymorth yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu annibyniaeth, hyder a sgiliau wrth iddyn nhw symud ymlaen trwy'r lefelau.

## 3.5. Goruchwylio a dilysu

Rhaid i ddysgwyr gael eu goruchwylio gan athro/athrawes wrth gwblhau gweithgareddau asesu. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon lofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.

Cydweithio: Caniateir gwaith grŵp dim ond pan fydd hyn wedi'i nodi. Rhaid bod modd nodi'n glir gyfraniadau unigol a rhaid eu hasesu'n annibynnol i sicrhau tegwch. Rhaid i ddysgwyr ddarparu ymatebion unigol, a rhaid bod modd priodoli tystiolaeth i bob dysgwr. Rhaid i'r taflenni dilysu gael eu llofnodi gan yr athro/athrawes a'r dysgwr.

## 3.6. Marcio (dyfarniadau asesu)

Er mwyn sicrhau cysondeb a dibynadwyedd wrth asesu, rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro/athrawes neu aseswr dynodedig gydag arbenigedd pwnc priodol.

Rhaid i athrawon ac aseswyr sicrhau'r canlynol:

- y gwneir dyfarniadau yn erbyn y meini prawf asesu yn unig, nid yn seiliedig ar argraffiadau cyffredinol neu ymdrech y dysgwr
- mae tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i hanodi'n glir i ddangos sut mae'n bodloni meini prawf penodol
- mae tystiolaeth perfformiad (er enghraifft, cyflwyniadau neu arddangosiadau ymarferol) yn cael ei dogfennu gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol, gan nodi'n glir pa feini prawf sydd wedi'u bodloni ac ar ba lefel
- mae'r holl dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir, gyda digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu
- Os defnyddir cofnodion arsylwi, rhaid iddyn nhw gynnwys digon o fanylion i gyfiawnhau'r radd a ddyfarnwyd.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Cefnogir pob deilliant dysgu gan bedwar band perfformiad gwahanol o feini prawf asesu, wedi'u cynllunio i adlewyrchu sbectrwm eang o alluoedd dysgwr. Cydnabyddir y gall perfformiad dysgwr amrywio ar draws deilliannau dysgu gwahanol o fewn yr un uned. Penderfynir ar y radd a ddyfernir i'r dysgwr ar gyfer yr uned drwy'r rheolau graddio a amlinellir yn Adran 4.3 Graddio.

Mae'n rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Pan fydd perfformiad yn cael ei arsylwi gan rywun heblaw am yr athro/athrawes, rhaid cwblhau datganiad tyst. Mae'r asesydd yn gyfrifol am ddilysu'r datganiad drwy graffu ar dystiolaeth ategol a/neu holi'r dysgwr neu'r tyst.  Gall datganiadau tyst wedi'u dilysu gyfrannu at y dystiolaeth asesu gyffredinol, a rhaid cynnwys dogfennaeth ddilysu.

Darperir pro forma safonedig ar gyfer cofnodion arsylwi a thystion ac mae ar gael ar dudalen bwnc gwefan CBAC. Dylid rhoi copi o'r pro forma i ddysgwyr ymlaen llaw i gefnogi tryloywder a chysondeb.

## 3.7. Ailgyflwyno tystiolaeth cyn cymedroli

Gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w hailasesu cyn cyflwyno'r penderfyniad terfynol i'w gymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Gall dysgwyr ailgyflwyno er mwyn:

- mynd i'r afael â hepgoriadau neu dystiolaeth anghyflawn ar gyfer y lefel bresennol
- ceisio cyflawni meini prawf asesu ychwanegol neu lefel uwch (er enghraifft, symud ymlaen o Fynediad 2 i Fynediad 3 neu Lefel 1).

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol i ganiatáu digon o amser ar gyfer ailgyflwyno, lle bo angen, cyn y cymedroli allanol.

Rhaid i unrhyw adborth a roddir i ddysgwyr:

- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- nodi pa feini prawf asesu nad ydynt wedi'u bodloni a/neu gadarnhau'r lefel a gyflawnwyd ar hyn o bryd
- osgoi rhoi cyfarwyddiadau penodol ar sut i fodloni meini prawf lefel uwch
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Rhaid i athrawon beidio â:

- chaniatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei asesu.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth. Dylent ganolbwyntio'n unig ar y meysydd lle mae eu nod yw gwella neu symud ymlaen.

Ni ddylai'r amser a ganiateir ar gyfer ailgyflwyno fod yn fwy na chyfanswm yr amser a roddir ar gyfer cynhyrchu tystiolaeth gychwynnol.

Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau er mwyn darparu llwybr archwilio clir, gan gynnwys lefel gwreiddiol y dysgwr ac unrhyw ailgyflwyniad. Dim ond y dystiolaeth a'r penderfyniadau asesu terfynol sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

Ar ôl cyflwyno'r penderfyniadau asesu i'w cymedroli, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r dystiolaeth. Un cyfle sydd ar gael i ymgeiswyr i ailsefyll asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol (gweler adran 4.4).

## 3.8. Camymddwyn

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer eu Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith.

Ceir gwybodaeth am gamymddwyn yn ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 4. Gwybodaeth dechnegol

## 4.1. Cofrestru ar gyfer unedau

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y cymhwyster.

Bydd cymedroli allanol o Uned 1 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2028 (ac ym mhob cyfres yr haf wedi hynny).

Bydd cymedroli allanol o Uned 2 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2029 (ac ym mhob cyfres yr haf wedi hynny).

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod.

| Uned | | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
| Uned 1 | | | |
| Uned 2 | | | |

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

## 4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|
| Cod cyfnewid | | |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

## 4.3. Graddio ac adrodd yn ôl

Mae Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith CBAC a'r unedau ynddynt yn cael eu graddio ar raddfa radd bedwar pwynt o Lwyddo Mynediad 1 i Lwyddo Lefel 1. Cyfanswm y marciau a enillir ar draws pob maen prawf sy'n penderfynu'r radd derfynol, gan ganiatáu i gryfderau mewn rhai meysydd gydbwyso gwendidau mewn meysydd eraill.

### Graddau unedau

Dyfarnir gradd grynodol i ddysgwyr ar gyfer pob uned yn seiliedig ar gyfanswm y pwyntiau y mae'r dysgwr wedi'i ennill yn yr uned honno.

Dyrennir **1** pwynt i bob maen prawf Mynediad 1, dyrennir **2** bwynt i bob maen prawf Mynediad 2, dyrennir **3** phwynt i bob maen prawf Mynediad 3 a dyrennir **4** pwynt i bob maen prawf Lefel 1.

Er mwyn cyflawni Mynediad 1, rhaid i'r ymgeisydd ennill 20% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Er mwyn cyflawni Mynediad 2, rhaid i'r ymgeisydd ennill 40% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Er mwyn cyflawni Mynediad 3, rhaid i'r ymgeisydd ennill 60% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Er mwyn cyflawni Lefel 1, rhaid i'r ymgeisydd ennill 80% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Mae'r tabl isod yn dangos isafswm nifer y pwyntiau ar gyfer pob gradd uned y mae'n rhaid i ymgeisydd ei ennill i gael y radd uned honno wedi'i dyfarnu iddyn nhw.

| | Uchafswm pwyntiau | M1 | M2 | M3 | L1 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 48 | 10 | 19 | 29 | 38 |
| **Uned 2** | 68 | 14 | 27 | 41 | 54 |

Os nad yw ymgeiswyr yn cyflawni isafswm nifer y meini prawf i gael Mynediad 1 wedi'i ddyfarnu iddyn,nhw cofnodir eu cyrhaeddiad fel annosbarthedig (U).

### Gradd y cymhwyster

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar gyfanswm y pwyntiau y mae'r ymgeisydd yn ei ennill ar draws y ddwy uned.

Er mwyn cyflawni Mynediad 1, rhaid i'r ymgeisydd ennill 20% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

Er mwyn cyflawni Mynediad 2, rhaid i'r ymgeisydd ennill 40% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

Er mwyn cyflawni Mynediad 3, rhaid i'r ymgeisydd ennill 60% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael
.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Er mwyn cyflawni Lefel 1, rhaid i'r ymgeisydd ennill 80% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

Mae'r tabl isod yn dangos isafswm nifer y pwyntiau ar gyfer pob gradd y cymhwyster y mae'n rhaid i ymgeisydd ei ennill i gael gradd y cymhwyster wedi'i dyfarnu iddyn nhw.

| | Uchafswm pwyntiau | M1 | M2 | M3 | L1 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 116 | 23 | 46 | 70 | 93 |

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o bwyntiau i gyflawni Llwyddiant Mynediad 1 yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

## 4.4. Ailsefyll asesiadau ar ôl cymedroli allanol

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob uned unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y radd uchaf a enillir ar draws y ddau gynnig wrth bennu'r canlyniad terfynol ar gyfer y cymhwyster.
Pan fydd ymgeiswyr yn ailsefyll:

- Gall dysgwyr ailgyflwyno gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon sicrhau bod modd adnabod tystiolaeth newydd a/neu ddiwygiedig yn glir.
- os bydd dysgwr wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais
- Os cyflwynodd dysgwr dystiolaeth ond nad oeddent yn bodloni unrhyw feini prawf asesu, bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.
- pan fydd y cymhwyster yn cynnwys mwy nag un uned, bydd tystiolaeth a phenderfyniadau o unedau eraill yn cael eu dwyn ymlaen, ar yr amod nad yw nifer cynigion y dysgwr yn fwy nag uchafswm nifer y cynigion a ganiateir ar gyfer unrhyw uned.
- os bydd ymgeisydd yn mynd dros nifer y cynigion a ganiateir ar gyfer unrhyw uned, yna bydd gofyn iddyn nhw ailwneud y cymhwyster yn ei gyfanrwydd.

## 4.5. Ailwneud y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru ar gyfer uned am y trydydd tro, rhaid iddyn nhw ailgofrestru, ac ailwneud, pob uned.

Rhaid i'r dysgwr gynhyrchu portffolio newydd o dystiolaeth. Ni all dysgwyr wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol; Rhaid i'r holl dystiolaeth gael ei chynhyrchu o'r newydd ar gyfer yr ailsefyll. Os gwnaeth canolfannau gynhyrchu cyd-destun ar gyfer asesiad, dylid defnyddio cyd-destun newydd.

Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster, gall roi hyd at ddau gynnig ar bob uned. Ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gwybodaeth fanylach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu: Canllawiau Cyflwyno'r Unedau.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 |
|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | |
| Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol | DD1.1, DD1.2, DD1.3, DD1.5 | DD2.1 |
| Cynaliadwyedd | DD1.4 | DD2.1, DD2.3 |
| Addysg cydberthynas a rhywioldeb | DD1.3, DD1.4 | DD2.1, DD2.2 |
| Addysg hawliau dynol | DD1.3 | DD2.1 |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith | DD1.2, DD1.5 | Pob un |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | |
| Gwrando | Pob un | Pob un |
| Darllen | Pob un | Pob un |
| Siarad | Pob un | Pob un |
| Ysgrifennu | Pob un | Pob un |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | |
| Datblygu hyfedredd mathemategol | DD1.4 | DD2.1, 2.2 |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu’r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | DD1.4 | DD2.1, 2.2 |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | DD1.3 | DD2.4 |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | DD1.4 | DD2.1, 2.2 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | |
|---|---|---|
| Cymhwysedd Digidol | | |
| Dinasyddiaeth | DD1.3, DD1.4 | DD2.1, 2.2 |
| Rhyngweithio a chydweithio | DD1.2, 1.3, 1.4 a 1.5 | DD2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5 |
| Cynhyrchu | DD1.3, DD1.4 | DD2.2 i 2.6 |
| Data a meddwl cyfrifiannol | DD1.4 | DD2.1 a DD2.2 |
| Sgiliau Cyfannol | | |
| Creadigrwydd ac arloesi | DD1.3 a DD1.4 | DD2.2, 2.3, 2.4, 2.5 |
| Meddwl yn feirniadol a datrys problemau | DD1.3 a DD1.4 | Pob un |
| Cynllunio a threfnu | DD1.3, DD1.4 a DD1.5 | DD2.1, DD2.3, DD2.4 |
| Effeithiolrwydd personol | DD1.3, DD1.4 a DD1.5 | DD2.6 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026

FOR CENTRES IN WALES:
www.wjec.co.uk
Facebook - WJEC_CBAC
Twitter - @WJEC_CBAC
Instagram - @WJECforstudents

Email: info@wjec.co.uk
Telephone: 029 2026 5000